Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Y Waun Ddyfal**

**Eglwys Anglicanaidd St. Michaels & All Angels**
**Ffordd yr Eglwys Newydd**
**Caerdydd**
**CF14 3JL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Y Waun Ddyfal

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Y Waun Ddyfal |
| Lleoedd cofrestredig | 14 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Mehefin 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn cael profiadau da yn rheolaidd yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau gwerth chweil a gwerthfawr ynglŷn â'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt ac yn gallu dilyn eu syniadau a'u diddordebau pan fo hynny'n briodol. Mae ganddynt gydberthnasau cryf â'r staff ac maent yn rhyngweithio'n hyderus â nhw.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn bwrpasol. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gadarnhaol ac yn gynnes ac mae'r staff yn cefnogi anghenion y plant yn fedrus.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn lân, yn ddiogel ac yn addas. Maent yn rhoi asesiadau risg ar waith er mwyn sicrhau y caiff pob risg posibl ei ystyried. Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth o deganau ac adnoddau o ansawdd da yn y lleoliad. Defnyddir yr ardal awyr agored yn effeithiol. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn gwneud defnydd da o'r adnoddau i ddatblygu a gwella'r profiadau a gynigir ymhellach.

Nid yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn y lleoliad yn gyson ac mae hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth wedi cael ei gyflwyno mewn perthynas â'r cymorth a roddir i'r staff. Mae'r unigolyn cyfrifol, sy'n newydd yn ei swydd, yn awyddus i wneud gwelliannau ac wedi dweud wrthym y bydd yn ymdrin â'r materion a godwyd fel mater o flaenoriaeth.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Gallant benderfynu ble i chwarae a beth yr hoffent chwarae ag ef, a chânt ddewis yn rheolaidd a ydynt am gymryd rhan mewn gweithgaredd ai peidio. Maent yn siarad yn hyderus ac mae'r rhai nad ydynt yn gallu cyfathrebu ar lafar eto yn defnyddio arwyddion fel pwyntio i gyfleu eu hanghenion a'u dymuniadau yn llwyddiannus. Er enghraifft, nododd plentyn i aelod o'r staff ei fod am chwarae gêm helfa drysor a chafodd gymorth gan yr aelod o staff gyda'r gêm.

Mae'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn awyddus i weld y staff a'u ffrindiau. Mae ganddynt gydberthnasau cynnes a chadarnhaol â'r staff ac maent yn gwybod y bydd staff yn eu helpu a'u cefnogi. Er enghraifft, mae'r plant yn esgus bod yn ddeinosoriaid a dechreuodd y staff ganu cân deinosor ac annog y plant i wneud y symudiadau. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd, sy'n eu helpu i setlo ac i deimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, maent yn gwybod y dylid golchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac amser bwyd, ac yn mwynhau gweithgareddau amser cylch dyddiol fel canu hwiangerddi a chyfrif.

Mae'r plant yn ymddwyn ac yn rhyngweithio'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chwarae'n hapus ar eu pen eu hunain neu gyda'u ffrindiau wrth iddynt ddysgu i rannu a chydweithio. Er enghraifft, mae'r plant yn rhannu sialciau ac yn lliwio byrddau sialc gyda'i gilydd. Mae'r plant yn dechrau deall anghenion eraill ac yn ystyried teimladau eu ffrindiau. Clywsom un plentyn yn dweud wrth un o'i ffrindiau, ''*your turn now*,'' wrth iddynt ymarfer neidio ar y trampolîn.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael budd o amrywiaeth dda o adnoddau chwarae a dysgu sy'n briodol i'w hoedran yn yr ystafell chwarae ac yn yr ardal awyr agored. Maent yn dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau cyffrous a difyr. Er enghraifft, gwelsom y plant yn mwynhau cymysgu cynhwysion i bobi bisgedi ar gyfer parti. Caiff y plant eu hannog i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn chwarae am gyfnodau o amser sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, mae'r plant yn gweini eu bwyd eu hunain yn ystod amser byrbryd ac yn gwisgo eu cotiau a'u hesgidiau i chwarae yn yr awyr agored gyda chymorth y staff. Mae'r plant yn helpu i dacluso eu teganau ar adegau penodol. Maent yn dysgu i reoli eu hanghenion iechyd a hylendid eu hunain gyda chymorth y staff. Er enghraifft, mae'r plant yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl amser byrbryd ac yn brwsio eu dannedd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff wybodaeth dda am eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir iawn o faterion diogelu, arwyddion a symptomau cam-drin, a'r ddyletswydd sydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon. Mae'r staff yn hybu iechyd a hylendid yn effeithiol. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled, ar ôl chwarae yn yr awyr agored a chyn bwyta. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y plant a'r staff yn cael cyfleoedd cyson i ymarfer gadael yr adeilad yn ddiogel. Maent yn deall yn glir sut i reoli alergeddau bwyd yn ddiogel. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes; fodd bynnag, nid oeddent bob amser wedi'u llofnodi gan y rhieni. Maent yn monitro'r cofnodion hyn yn rheolaidd er mwyn chwilio am batrymau a thueddiadau ac yn cymryd camau i ymdrin ag unrhyw rai sy'n bodoli. Mae'r staff yn cwblhau cofrestrau er mwyn dangos presenoldeb y plant yn gywir. Maent yn sicrhau bod profiadau chwarae a dysgu rheolaidd yn yr awyr agored ar gael i'r plant bob dydd, gan gynnig manteision ymarfer corff ac awyr iach iddynt.

Mae'r staff yn ymuno â'r plant i chwarae pan fydd yn briodol gwneud hynny, ac yn siarad â nhw'n rheolaidd er mwyn ehangu eu dysgu a chynnig profiadau cymdeithasol iddynt. Yn ystod amser byrbryd, gwelsom y staff yn sgwrsio â'r plant am y cynlluniau ar gyfer y parti diwedd tymor a pha gemau yr hoffent eu chwarae. Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant, yn siarad â nhw mewn ffordd hoffus ac yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, mae'r staff yn tynnu sylw'r plant gyda gweithgaredd arall os byddant yn ei chael hi'n anodd rhannu neu gymryd eu tro, ac yn rhoi esboniad clir pan na fydd eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r staff hefyd yn modelu sgiliau cymdeithasol da yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant gan ddweud diolch a chanmol ei gilydd yn ystod gweithgareddau.

Mae'r staff yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae a dysgu â chydbwysedd priodol rhwng cyfleoedd dan arweiniad y plentyn a chyfleoedd dan arweiniad yr oedolyn. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant gan chwilio am gyfleoedd i ehangu eu dysgu. Mae'r staff yn asesu galluoedd y plant ac yn ymwybodol o'u camau datblygu nesaf. Caiff y broses o gynllunio gweithgareddau ei selio ar syniadau gan y plant, anghenion datblygiadol a dewisiadau. Fodd bynnag, ni chaiff arsylwadau na chynlluniau eu cofnodi'n ffurfiol. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn gryf ym mhob rhan o'r lleoliad.

| Yr Amgylchedd | Da |
| --- | --- |

Mae'r safle yn gynnes, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r staff yn sicrhau mai dim ond unigolion awdurdodedig a gaiff ddod i mewn i'r lleoliad a hynny drwy fynedfa ddiogel. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer y safle a gweithgareddau'r plant. Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel drwy gwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant a'u dileu lle y bo'n bosibl. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch a thystysgrifau diogelwch arferol ar waith ar gyfer yr adeilad a dyfeisiau, gan gynnwys tystysgrifau yswiriant. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd fel bod y plant a'r staff yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd mawr a chroesawgar i'r plant. Mae'r staff yn trefnu'r lleoliad mewn ffordd effeithiol a deniadol i ysgogi chwilfrydedd, dychymyg a datblygiad y plant. Er enghraifft, caiff yr ardaloedd fel y gornel gartref a'r bwrdd crefft eu gosod yn drawiadol ac maent yn denu'r plant i chwarae. Mae'r teganau a'r gweithgareddau ar uchder priodol i'r plant, sy'n eu galluogi i gael gafael ar y pethau yr hoffent chwarae â nhw yn hwylus. Mae'r staff yn ystyried sut y mae'r plant yn defnyddio'r gofod a'r adnoddau yn rheolaidd, gan addasu'r amgylchedd lle y bo angen i ddiwallu eu hanghenion. Pan eir â'r plant i'r ardal awyr agored i chwarae, mae ardal fawr, amrywiol a deniadol ar gael iddynt chwarae a dysgu yno. Mae'r staff yn arddangos gwaith celf y plant a ffotograffau ohonynt yn gweithio ac yn chwarae yn yr ystafell chwarae fel dathliad o'u cyflawniadau.

Mae'r staff yn sicrhau bod y teganau, yr adnoddau, y dodrefn a'r cyfarpar yn y lleoliad yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac o ansawdd uchel. Maent yn darparu dodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau maint plant a lle storio teganau lefel isel, sy'n addas i oedran y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae'r ardal awyr agored yn ardal fawr a chroesawgar lle gall y plant archwilio a dysgu am y byd o'u cwmpas, a meithrin amrywiaeth o sgiliau. Mae nifer priodol o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy'n lân ac yn ffres. Mae'r staff yn sicrhau bod eitemau bywyd go iawn ac eitemau amlddiwylliannol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o gydraddoldeb ac amrywiaeth ddiwylliannol. Maent yn gwirio'r teganau, y cyfarpar a'r adnoddau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn lân ac mewn cyflwr da.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Gwael

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff rhai agweddau eu rheoli'n briodol, ond mae angen gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd. Maent wedi llunio datganiad o ddiben sy'n darparu darlun cywir o'r ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Mae gan yr arweinwyr amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau sy'n cael eu hadolygu bob blwyddyn. Maent yn casglu'r wybodaeth ofynnol sy'n ymwneud ag anghenion y plant gan gynnwys caniatâd ar gyfer elfennau o'r gofal fel triniaeth feddygol frys. Mae'r arweinwyr yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau o bwys sy'n effeithio ar lesiant y plant yn eu gofal, gan gynnwys newidiadau i'r staff a'r arweinyddiaeth.

Mae'r arweinwyr yn monitro ansawdd y gwasanaeth ac yn cynllunio ar gyfer gwelliannau yn briodol. Maent yn gofyn am adborth gan y rhieni, y plant a'r staff. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal sy'n nodi arferion effeithiol a meysydd i'w datblygu. Mae'r adroddiad yn cynnwys adborth cadarnhaol gan y rhieni sy'n dangos lefel uchel o foddhad â'r gwasanaeth a ddarperir.

Mae'r arweinwyr yn cwblhau gweithdrefnau recriwtio priodol er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant ac mae ganddynt systemau ar waith i sicrhau y caiff Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) eu hadnewyddu bob tair blynedd. Mae'r rhan fwyaf o’r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol cyfredol, fel cymorth cyntaf a diogelu. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod rhai o'r gweithdrefnau staffio yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Nid yw'r staff wedi cael sesiynau goruchwylio nac arfarniadau ffurfiol ers dechrau yn eu rôl. Mae hyn wedi cael effaith negyddol ar eu datblygiad proffesiynol, ac yn effeithio ar eu gallu i greu amgylchedd gwaith cadarnhaol a chyflawni'r canlyniadau gorau i'r plant. Felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r mater hwn. Yn ystod yr arolygiad, cafodd Unigolyn Cyfrifol newydd ei benodi.

Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y gofal a ddarperir, a gwnaethant nodi bod y staff yn groesawgar ac yn gyfeillgar. Mae systemau effeithiol ar waith i roi gwybodaeth reolaidd i'r rhieni am yr amser y mae eu plentyn yn ei dreulio yn y lleoliad. Mae trefniadau trosglwyddo llafar trylwyr ar waith rhwng y staff a'r rhieni ar ddechrau a diwedd sesiynau. Mae gan yr arweinwyr gydberthynas gadarnhaol â staff yr ysgol gynradd leol sy’n hwyluso'r trefniadau pan fydd y plant yn trosglwyddo o'r lleoliad i'r ysgol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd i drafod unrhyw bryderon a nodi hyfforddiant a datblygiad pellach. | Newydd |
| 31 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi hysbysu AGC am newidiadau staff yn y lleoliad. Rhaid i AGC gael ei hysbysu am yr holl newidiadau o ran y staff, gan gynnwys y trefniadau arweinyddiaeth. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 5 - Cofnodion | Cofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes a sicrhau bod y rhieni yn llofnodi'r cofnodion. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Ystyried ffurfioli'r arsylwadau a'r cynlluniau. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/09/2024